All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan



# DIWEDDARIAD CEREDIGION
**Mai**
**2014**

## Newyddion a Datblygiadau

*Croeso i ddiweddariad Ceredigion...*

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael Cydsyniad Brenhinol**

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu, am y tro cyntaf erioed, fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu gan hybu annibyniaeth pobl a rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt. Bydd hefyd yn arwain at ffocws o'r newydd ar atal ac ymyrraeth gynnar ac yn cyflwyno hawliau cyfartal i ofalwyr er mwyn i bobl sy'n gofalu am rywun fel perthynas neu ffrind oedrannus neu anabl gael hawliau tebyg i'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanynt.
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn fe welwch ddolen ddefnyddiol ar wefan **AWF**: http://www.allwalesforum.org.uk/

Roedd yn drueni mawr clywed bod seminar 'Cynllunio ar gyfer y Dyfodol' Mencap oedd i'w gynnal yn Aberystwyth ar 6ed o Fai wedi cael ei ganslo. Mae’n debyg fod y seminarau dwy awr hyn sy'n rhad ac am ddim yn werth eu mynychu. Maen nhw'n cynnig cyngor cyfreithiol hollbwysig ac arbenigol gan roi cyfle i rieni a theuluoedd gael atebion i'r cwestiynau anodd hynny am ysgrifennu ewyllysiau a sefydlu ymddiriedolaethau er budd anwyliaid ag anabledd dysgu. Rydw i wedi cysylltu â Mencap i weld a oes modd trefnu diwrnod arall, ac mae'n falch gen i ddweud eu bod nhw'n hapus iawn i wneud hynny. Felly mae'n rhaid i ni gael nifer o aelodau'r Fforwm i ddangos diddordeb cryf mewn mynychu'r seminar. Os oes digon o bobl â diddordeb mae'n dra phosib y bydd yn digwydd. Felly, hoffwn i ofyn i bob aelod sydd am gael cyfle i fynychu'r seminar 'Cynllunio ar gyfer y Dyfodol' i gysylltu â mi. Yna byddaf yn trefnu dyddiadau posibl gyda Mencap ac yn rhoi gwybod i chi beth yw'r dewisiadau.

Yn ein cyfarfod Fforwm diwethaf, siaradodd Sue Darnbrook, Pennaeth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion, am yr angen i ddatblygu Strategaeth Anableddau Dysgu Ceredigion yn unol â chais AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru). Bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am gymorth aelodau'r Fforwm wrth lunio'r strategaeth hon. Mae hyn yn newyddion gwych ac felly rwy'n gobeithio y byddwch chi’n dechrau meddwl sut y gallwch chi gyfrannu..

***Cofion gorau, Roger***

## DYDDIADAU A DIGWYDDIADAU I'CH DYDDIADUR

**Cyfarfod Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion**

**Nos Fercher 18 Mehefin**
**am 18:30 (6.30pm)**
**Gwesty'r Plu**
**Aberaeron**
**Siaradwr Gwadd: Gill Davies**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

++++++

**Cysylltu â Theulu Cymru**
Diwrnod Hwyl i'r Teulu am ddim
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, 25 Mai 2014, 11am.
Cyfle i weld y ffilm 'Rio 2', adloniant i blant a man tawel. Bydd man gwybodaeth hefyd lle y cewch gyngor un-i-un a gwybodaeth am gymorth lleol a chenedlaethol. **I gadw lle neu am wybodaeth bellach ffoniwch 02920 396624 neu e-bostiwch** wales.events@cafamily.org.uk,
Darperir cinio ysgafn.
Digwyddiad rhad ac am ddim.

+++++++

**Wythnos Gofalwyr**
Dydd Llun 9 - Dydd Sul 15 Mehefin 2014.
Mae Wythnos Gofalwyr yn ymgyrch ymwybyddiaeth flynyddol sy'n dathlu ac yn cydnabod y cyfraniad sy'n cael ei wneud gan y 6.5 miliwn o ofalwyr yn y DU sy'n gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind sâl, bregus neu anabl. **GWYLIWCH AM DDIGWYDDIADAU LLEOL.**

## Ff C G

**Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu**


Adeiladau Elliot
21, Cardiff Road
Ffynnon Taf
Caerdydd. CF14 7RB
Ffôn:
02920 811120
E-bost:
roger@allwalesforum.org.uk


**Hyrwyddo buddiannau Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu**

All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

## Newyddion arall …

**Swyddog Datblygu Rhanbarthol Ceredigion**
Mae'n falch gen i ddweud bod cyllid wedi'i sicrhau am flwyddyn arall ar gyfer fy rôl gyda Fforwm Cymru Gyfan. Felly bydda i yma tan ddiwedd Mawrth 2015 (o leiaf) ac os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod, neu os oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi, rhowch wybod.

**Eiriolaeth Ceredigion Advocacy**
Nid yw'r mudiad hwn yn bodoli mwyach. Ar 1 Ebrill eleni fe unodd â Darparwyr Eiriolaeth Iechyd Meddwl (**MAP**) Sir Benfro (Rhif Elusen Gofrestredig 1068440). Mae **MAP** bellach yn gyfrifol am reoli'r Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol i'r rhai sydd ag anableddau dysgu yma yng Ngheredigion. John Stacey yw'r arweinydd a gallwch gysylltu ag ef yn:
Y Siambrau Rhyddfrydol, 4 Stryd Santes Fair, Hwlffordd SA61 2DR. Ffôn: 01437 762935 neu e-bost john@mapadvocacy.org.uk
Mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn cael ei redeg yn rhan-amser ar hyn o bryd ond mae MAP yn gobeithio datblygu'r gwasanaeth.

**SNAP Cymru**
Gyda'r diwygiad mwyaf o'r system AAA ers tri deg o flynyddoedd, roeddwn i'n meddwl y dylech chi gael gwybod mai Christina Bufton yw Swyddog Teuluoedd a Phobl Ifanc Ceredigion.
Ffôn: 0845 120 3730 neu e-bost: headoffice@snapcymru.org

## EITEMAU O DDIDDORDEB

**Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion**

**Arolwg Seibiant** Mae'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion am gynnal arolwg o'r ddarpariaeth gwasanaeth seibiant yn y sir. Yn ein cyfarfod diwethaf clywsom fod Gelli Lon a Brynsiriol wrthi'n cael eu hadolygu. Fodd bynnag, bydd yr arolwg hwn yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a rhieni / gofalwyr am eu barn a'u profiadau. Byddant hefyd yn rhoi gwybodaeth ar amryw o ddewisiadau gwahanol y byddwch efallai am eu hystyried. Byddant am glywed eich barn am y ddarpariaeth seibiant presennol, ond hefyd am yr hyn yr hoffech ei weld yn y dyfodol. Rwy'n credu ei fod yn bwysig bod y rhai y mae'r arolwg hwn yn berthnasol iddynt yn cymryd rhan.

**Lwfans Gofalwyr.** Sonies i yng nghylchlythyr mis Ionawr y gallwch chi wneud cais ar-lein. Erbyn hyn, cefais wybod y gallwch chi wneud hynny yn Gymraeg hefyd.
**www.gov.uk/carers-allowance**
**Dyddiad Cyfarfod Fforwm 18 Mehefin 2014**

Deallaf pa mor anodd y mae hi i nifer ohonoch chi ddod i'n cyfarfodydd oherwydd eich rôl ofalu, a gyda hyn mewn cof mae cyfarfod mis Mai wedi cael ei ohirio tan 18 Mehefin. Nid yw nifer o gyfarfodydd y mae cynrychiolwyr rhieni yn eu mynychu ar eich rhan yn cael eu cynnal tan ddiwedd Mai neu ddechrau Mehefin, felly ni fyddai lawer gan y cynrychiolwyr i adrodd nôl amdano. Bydd y ffaith fod eich Fforwm wedi'i gynrychioli yn y cyfarfodydd gwahanol hyn yn fwyfwy pwysig wrth i'r arian fynd yn llai. Hoffwn ddiolch i bob cynrychiolydd rhieni am yr ymrwymiad a'r cymorth hael y maent yn eu rhoi ar eich rhan.


**Fforwm Cymru Gyfan**
**Swyddog Datblygu Gofalwyr Ceredigion**
**Roger Colman**
**E-bost roger@allwalesforum.org.uk**
**Ffôn 01545 580232**

**Ymunwch â ni ar Facebook Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion**